**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Peter Fox AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mike Hedges AS
Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

12 Tachwedd 2025

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

Ysgrifennaf atoch i roi diweddariad am Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025 ('Rheoliadau 2025'). Cyn i'n Rheoliadau gael eu gosod ym mis Rhagfyr 2025, roeddwn am roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am ganfyddiadau'r ymgynghoriad a'r camau nesaf.

Ar 2 Hydref, cyhoeddais y Datganiad Ysgrifenedig, a oedd yn amlinellu'r Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion. Daeth dros 2,700 o ymatebion i law gan ddysgwyr, rhieni, addysgwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid eraill, sy'n dangos ymroddiad cryf ac ymrwymiad cyffredin i wella safonau bwyd ysgolion yng Nghymru.

Mae fy swyddogion wedi bod yn dadansoddi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi ailgynnull y grwpiau gorchwyl a gorffen amlasiantaethol er mwyn cynghori a phrofi o ran cyfeiriadau polisi pellach.

Yn fras, bydd Rheoliadau 2025 yn diwygio'r safonau a'r gofynion sy'n ymwneud â'r bwyd a'r diod sydd i'w ddarparu mewn ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd i:

- Gynnig mwy o ffrwythau a llysiau er mwyn helpu plant yng Nghymru i fwyta pump y dydd.
- Darparu mwy o rawnydd cyflawn am fod tystiolaeth yn awgrymu nad yw plant yng Nghymru yn bwyta digon o ffeibr.
- Cyfyngu ar fwydydd crwst, pwdinau a nwyddau pob wedi'u melysu, a bwydydd wedi'u ffrio yn seiliedig ar y cyngor deietegol diweddaraf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Cyflwyno dwy safon wahanol o ran egni a maeth ar gyfer y cinio ysgol arferol, yn seiliedig ar grwpiau oedran, i helpu i leihau gwastraff bwyd.
- Cynnig llai o gig wedi'i brosesu a chyfyngu ar ddewisiadau wedi'u prosesu yn lle pysgod a chig a all gynnwys llawer o halen a braster dirlawn.
- Cadw cig coch mewn cymedroldeb er mwyn sicrhau bod plant yn cael budd o'r maethynnau y mae'n eu cynnig heb fwyta gormod ohono.

Yn ogystal, bydd Rheoliadau 2025 yn diwygio Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") i ddileu pob cyfeiriad at ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd fel y bydd Rheoliadau 2013 wedyn yn gymwys i ysgolion uwchradd.

Fel y dywedais yn yr ymgynghoriad, mae'r sefyllfa o ran bwyd ysgol yn wahanol iawn mewn ysgolion uwchradd, ac mae angen mwy o waith cyn y gellir cynnal adolygiad o'r darpariaethau mewn ysgolion uwchradd. Yn y cyfamser, fel sail i adolygiad o'r fath, mae fy swyddogion wrthi'n ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn sgil y cais am dystiolaeth (fel rhan o'r ymgynghoriad). Mae gwaith hefyd ar y gweill i gasglu data a deall arferion bwyta dysgwyr uwchradd yn well ac, mewn awdurdodau lleol sydd wedi gwirfoddoli i gymryd rhan, mae tystiolaeth yn cael ei chasglu drwy dreialu gwahanol ddulliau gweithredu o ran bwyta'n iach mewn ysgolion uwchradd. Rwy'n rhagweld y bydd yr ymdrechion hyn yn ei gwneud yn bosibl creu sylfaen bolisi gadarn ar gyfer adolygiad yn y dyfodol. Rwyf wedi ymrwymo i adolygu'r rheoliadau o safbwynt ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, oherwydd y cymhlethdod a'r amser sydd wedi bod ar gael imi, ni fu'n bosibl ymgymryd â'r gwaith hwn yn ystod tymor presennol y Senedd.

Os yw eich Pwyllgorau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol, hoffwn gynnig cyfle i'r Pwyllgorau gael briff technegol gan fy swyddogion unwaith y bydd Rheoliadau 2025 wedi'u gosod ym mis Rhagfyr. Gall y briff technegol hwn ymdrin â phwrpas y Rheoliadau; y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau; a sut mae'r Rheoliadau wedi'u cynllunio ochr yn ochr â phartneriaid ac wedi'u llywio gan yr ymgynghoriad (gan gynnwys plant a phobl ifanc).

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol, ac edrychaf ymlaen at glywed gennych os hoffech ymuno â sesiwn friffio dechnegol.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education